# PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

# DYDD GWENER, 24 CHWEFROR 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd) (Yn Y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | |
|---|---|---|
| K. Davies | S.M. Allen | N. Lewis |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| D.M. Cundy (yn lle G.R. Jones | T.A.J. Davies | D.C. Evans | T.M. Higgins |
| D. Jones (yn lle S. Godfrey-Coles) | B.D.J. Phillips | G.B. Thomas | |

**Cynghrwyr Hefyd yn bresennol:**
C.A. Davies, Aelod Cabinet Dros Faterion Gwledig A Pholisi Cynllunio (Yn rhithwyr)
E.G. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith. (Yn rhithwyr)
A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd (Yn y Siambr)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Gwledig
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion]

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
G. Pearce-Taylor, Rheolwr Bwrdd Rhaglen Rheoli Maetholion
G. Helier, Swyddog Coed Cymru
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 11.45 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Godfrey-Coles, a G. Jones.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**4. STRATEGAETH COED A CHOETIR AR GYFER CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2023-2028**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried fersiwn drafft o'r Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-2028. Cyflwynwyd y Strategaeth gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.

Roedd y strategaeth yn rhoi sylw i gyfrifoldebau'r Awdurdod o ran rheoli coed a choetiroedd yn ogystal â chyfleoedd i blannu coed newydd.

Nododd y Pwyllgor fod y strategaeth yn gyson â Phecyn Cymorth y Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Awdurdodau Lleol. Roedd Strategaeth Clefyd Coed Ynn yr Awdurdod wedi'i chynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Gwnaed nifer o sylwadau/ymholiadau. Dyma'r prif faterion:-

- Nodwyd bod yr Awdurdod yn cynnig plannu 33 hectar o goetir bob blwyddyn ac o leiaf 10% ar ffermydd yr Awdurdod â thenantiaid. Cwestiynwyd ymarferoldeb cyflawni'r targed hwn o 10%. Rhoddodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad wybod bod y ffigur o 10% erbyn 2030 yn gyson â chynllun ffermio cynaliadwy newydd gwirfoddol Llywodraeth Cymru. Roedd y targed o 10% yn uchelgeisiol ond byddai'n rhaid i'r ffermwyr a gofrestrodd i fod yn rhan o'r cynllun cymorth ffermio newydd gydymffurfio ag ef.
- Mynegwyd pryder am blannu 33 hectar o goetir newydd y flwyddyn a'r effaith ar y ffermydd â thenantiaid a oedd yn fach o ran maint. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r strategaeth yn cael ei llunio drwy roi'r goeden iawn yn y lle iawn am y rheswm iawn. Dywedodd y byddai adborth yn cael ei groesawu wrth i'r strategaeth gael ei datblygu ymhellach. Yn ogystal, nodwyd bod y ffigur o 19% o orchudd coed ar gyfer tir sy'n eiddo i'r Cyngor yn cyd-fynd ag argymhellion gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd a Choed Cadw ond nad oedd yn statudol. Byddai pwyslais hefyd ar blannu coed mewn ardaloedd trefol.
- Gofynnwyd sut y byddai llwyddiant y plannu'n cael ei fesur, megis yr effaith ar yr amgylchedd, a chyfrif adar ac anifeiliaid. Dywedodd y Pwyllgor y byddai cyfrifiadau ar gyfer dal carbon yn cael eu defnyddio ac y byddai'r holl rychwant o fanteision yn cael eu hystyried gan gynnwys lleihau llifogydd a dŵr ffo.
- Pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen ystyried yn ofalus y goblygiadau o ran plannu coetiroedd, oherwydd ar ôl plannu ni fyddai modd defnyddio'r tir ar gyfer ffermio a byddai llai o fwyd yn cael ei gynhyrchu. Byddai'r math o goed y byddai'r Cyngor yn bwriadu eu plannu yn bwysig gan fod tir o dan gonwydd yn ddifywyd. Dywedwyd y byddai canran uchel o goed llydanddail a llwyni newydd yn cael eu plannu ond y gallai rhai pinwydd yr Alban fod yn rhan o'r gymysgedd oherwydd eu gwerth tirweddol.Pwysleisiwyd y byddai'r gwaith plannu'n cael ei wneud mewn modd sensitif, a hynny fesul safle.
- Dywedwyd bod coed llydanddail yn cymryd degau o flynyddoedd i gloi carbon, a bod argyfwng hinsawdd dybryd. Awgrymodd y Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad y gallai coed llydanddail gloi mwy o garbon yn y

pen draw na chonwydd, a dyfodd yn gyflymach, a bod angen defnyddio dull gofalus.

- Mewn ymateb i ddatganiad bod glaswelltir a reolir yn dda yn atafaelu mwy o garbon na choed, rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd wybod y byddai'n croesawu trafodaeth i ystyried y dystiolaeth i gefnogi'r honiad o ran glaswelltir.
- Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y mesurau roedd yr Awdurdod yn eu cymryd mewn perthynas â chlefyd coed ynn ar dir preifat. Cafodd y Pwyllgor wybod y gallai'r Awdurdod wneud gwaith ar ran y tirfeddiannwr pe bai'r goeden yn fygythiad i'r ffordd fawr. Byddai'r tâl yn cael ei ailgodi ar y tirfeddiannwr am y gost.
- Mewn ymateb i bryder ynghylch gwerthu coetiroedd preifat a'r posibilrwydd o'r coed hynny'n cael eu torri, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor na chaniateir clirio coetiroedd yn llwyr ac y byddai angen i dirfeddianwyr wneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am drwydded cwympo coed.
- Dywedwyd bod pobl ifanc yn bryderus am newid hinsawdd ac y dylid cyflwyno'r strategaeth coed a choetir newydd mewn ysgolion ac i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Ailbwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod y strategaeth yn cynnwys gwaith cymunedol. Hefyd dywedwyd bod ymgysylltu â'r gymuned yn rhan ganolog o gael arian grant.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Strategaeth Coed a Choetir 2023-28 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.**

## 5. LEFELAU FFOSFFADAU MEWN ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG AFONOL GWARCHODEDIG - DIWEDDARIAD

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio ynghylch y cynnydd a'r gwaith a wnaed wrth ymateb i effeithiau llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gwarchodedig.

Gwnaed nifer o sylwadau/ymholiadau. Dyma'r prif faterion:-

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pam nad oedd Afon Taf wedi'i chynnwys yn y rhaglen waith, cytunodd Rheolwr y Rhaglen Bwrdd Rheoli Maetholion fod ffosffadau ychwanegol yn cael effaith ar bob afon, ond roedd y pwyslais ar hyn o bryd ar afonydd a ddynodwyd â statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC). Cafodd y Pwyllgor wybod bod CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn gyfrifol am briodoli statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC).
- Mynegwyd pryder am faint o gemegau y mae eu hangen i gael gwared ar ffosffadau a pha mor gymhleth yw'r broses o ddatrys y problemau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai angen cydweithio a bod llawer o atebion sy'n seiliedig ar natur ar gael a allai gynnig manteision, gan arwain at well ansawdd aer a llai o lifogydd.
- Tynnodd Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maetholion sylw at y ffaith bod yr Awdurdod wedi creu cyfrifiannell i ddatblygwyr fesur faint o ffosffad y byddai eu cynllun yn ei gynhyrchu. Clywodd y Pwyllgor fod y cyfrifiannell wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru a CNC a'i fod yn cael ei gyflwyno i

weddill Cymru. Byddai'r cyfrifiannell yn cynorthwyo datblygwyr i fesur faint o ffosffad y byddai eu cynllun yn ei gynhyrchu.

- Mewn ymateb i gais am eglurhad ynghylch y cynllun credyd, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai cynllun oedd hwn lle y byddai datblygwyr yn prynu credydau ar gyfer cartrefi newydd yn nalgylchoedd yr afonydd y mae llygredd ffosffad yn effeithio arnynt. Y syniad yw y byddai gwlyptiroedd a ffyrdd eraill sy'n seiliedig ar natur yn cael eu creu sy'n lliniaru ffosffadau mewn carthion a dŵr ffo amaethyddol sy'n niweidiol i afonydd. Yna byddai'r gwlyptiroedd yn cynhyrchu credydau i'w gwerthu i ddatblygwyr fel ffordd o liniaru effaith eiddo newydd ar ffosffadau mewn dalgylchoedd afonydd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC). Byddai masnachu credyd yn ddewis amgen i ddatblygwyr sy'n llunio eu mesurau lliniaru ffosffad eu hunain ar gyfer eu cynlluniau.
- Dywedodd y Cabinet eu bod am weld llai o garthion yn cael eu rhyddhau i afonydd. Mewn ymateb i'r pryder hwn cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio fod 65% o'r llygredd ffosffad yn Afon Teifi yn dod o garthion ac nad amaethyddiaeth oedd y broblem. Roedd cyfran y llygredd ffosffad o garthion yn Afon Cleddau yn llawer llai na 65%, a nodwyd nad oedd y ganran yn hysbys eto am Afon Tywi. Nodwyd y cyfyngir ar Dŵr Cymru gan ei seilwaith presennol a bod rhaglen fuddsoddi ar y gweill i leihau gollyngiadau i afonydd. Dywedwyd hefyd y gallai'r cyhoedd helpu o ran yr hyn maen nhw'n ei fflysio i lawr y toiled.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad ynghylch Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchodedig.**

## 6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 14 Ebrill 2023 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Cafodd ei gynnig a'i eilio yn dilyn hynny fod Cynllun Busnes CWM yn cael ei gynnwys yn y Blaengynllun Gwaith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**
**6.1 derbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ar 24 Chwefror 2023.**
**6.2 ychwanegu Cynllun Busnes CWM at y Blaengynllun Gwaith.**

## 7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 IONAWR 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2023, yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |